Met Office



# Gwirio ffeithiau am ragolygon y tywydd

**Trosolwg**

"Sut rydyn ni'n adrodd straeon am y tywydd o wahanol safbwyntiau?" Drwy'r gweithgaredd hwn, byddwch yn archwilio gwahanol ffyrdd y gallwn wneud rhagfynegiadau am y tywydd a'u cyfathrebu nhw. Byddwch yn defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu i greu 'stori am y tywydd', gan feddwl sut mae hyn yn rhan allweddol o waith daroganwyr tywydd a meteorolegwyr.

**Camau'r gweithgaredd**

**01** **Casglu straeon**


Dros gyfnod o wythnos o leiaf, dylech chwilio am straeon am y tywydd yn y newyddion a'r cyfryngau a chasglu cymaint ag y gallwch – gallent fod ar ffurf toriadau o bapur newydd neu gylchgronau, lluniau o hysbysfyrddau neu hysbysebion, dolenni YouTube neu erthyglau ar-lein ac ati.

**Amser angenrheidiol**

90 munud

**Deunyddiau angenrheidiol**

- Papurau newydd, cylchgronau
- Camera neu ffôn
- Mynediad i'r we



## Awgrym

Os ewch chi ar wyliau, beth am greu eich adroddiad am y tywydd yno? Gallech ddefnyddio toriadau o'r papurau newydd lleol neu'r teledu. Os nad Saesneg yw'r iaith gyntaf neu'r unig iaith sy'n cael ei siarad yn eich lleoliad gwyliau, beth am gynnwys rhywfaint o eirfa'r tywydd yn yr iaith leol?

## 02 Dadansoddi eich canfyddiadau

Unwaith y byddwch wedi casglu eich straeon, eisteddwch i lawr ac edrychwch drwyddynt. Meddyliwch sut mae'r cyfryngau'n defnyddio tôn, iaith, delweddau ac ati i gyrraedd eu cynulleidfa. Rhowch sylw i'r gwahanol ffyrdd y caiff yr un tywydd ei gyfleu. Pa straeon yw'r rhai mwyaf diddorol? Pa straeon yw'r rhai mwyaf cywir? Pa dechnegau y maen nhw'n eu defnyddio (e.e. gorliwio, trosiadau, gwahanol arddulliau)? A yw'r straeon mwyaf diddorol neu gyffrous bob amser yn cynnwys yr wybodaeth fwyaf cywir?

## 03 Ysgrifennu adroddiad byr

Ysgrifennwch adroddiad yn seiliedig ar eich canfyddiadau, gan gynnwys casgliad sy'n esbonio pa ddarnau sy'n ymddangos yn ddibynadwy neu'n annibynadwy i chi a pham. Gallwch ysgrifennu eich adroddiad mewn unrhyw fformat, e.e. cynnwys delweddau neu ddolenni i glipiau o'r straeon rydych chi wedi'u casglu.

## 04 Gwneud eich stori tywydd eich hun

Defnyddiwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu o adroddiadau tywydd eraill i greu eich stori tywydd eich hun. Gallwch ddod â hi'n fyw fel y mynnwch, e.e. fel adroddiad tywydd wedi'i ffilmio, erthygl newyddion, cofnod dyddiadur, darn o ysgrifennu creadigol, poster tebyg i ffeithlun neu daflen. Sut fyddwch chi'n hoelio sylw eich cynulleidfa tra bod gwybodaeth ffeithiol yn cael ei rhoi hefyd?

## Awgrymiadau

- Ddim yn gwybod sut i greu stori ddiddorol? Edrychwch ar yr eirfa dywydd hon am ysbrydoliaeth **www.vocabulary.cl/english/weather.htm**
- Mae angen cydbwysedd rhwng rhoi gwybodaeth a dweud stori. Gall gormod o ffeithiau gael effaith sych iawn a bod ychydig yn ddiflas, ond gall rhy ychydig o ffeithiau arwain at newyddion ffug.

Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifanc rhwng 7 ac 14 oed i fod yn barod ar gyfer effeithiau'r tywydd a newid yn yr hinsawdd arnyn nhw a'u cymunedau. Dysgwch ragor yma: **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Hawlfraint y Goron 2019, Y Swyddfa Dywydd